



Amcan Llesiant 15

Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Y canlynol yw ein hymrwymiaadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Mae'r penawdau hyn yn seiliedig ar egwyddorion llywodraethu da o Cyflawni Llywodraethu Da yn y Llywodraeth: Fframwaith (CIPFA/Solace, 2016)

| Ymrwymiaadau'r Llynedd | ✓ * | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| A - Trawsnewid, Arloesi a Newid y ffordd rydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau | | |
| Bydd rhaglen TIC yn parhau i gefnogi'r gwaith o glustnodi a gwneud arbedion effeithlonrwydd. (Cyf. 13293) | ✓ | Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol TIC 2017/18 a Chynllun Busnes 2018-21 gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor/Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2018. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod mwy na £9m o arbedion wedi'u cyflawni drwy brosiectau TIC ers 2012, a bod £6m o arbedion pellach wedi'u targedu ar gyfer y 3 blynedd nesaf. |
| Bydd tîm TIC yn parhau i weithredu rhaglen waith gytbwys er mwyn sicrhau bod TIC yn gallu cynnal a hybu newid a gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir, ochr yn ochr â chydabod yr angen am ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig. (Cyf. 13294) | ✓ | Ar hyn o bryd mae Rhaglen TIC yn cynnwys cymysgedd o brosiectau strategol/trawsbynciol; adolygiadau gwasanaeth a mentrau rhesymoli prosesau/lleiau costau. Un o brif amcanion 2018/19 oedd cryfhau'r dull o ddadansoddi data a chostau gyda golwg ar nodi cyfleoedd pellach i arbed costau a gwneud arbedion effeithlonrwydd dros y 3 blynedd nesaf. |
| Bydd rhaglen TIC yn parhau i feithrin gallu ar draws y sefydliad er mwyn arwain, cefnogi ac ymgysylltu â phobl i sicrhau trawsnewid a newid. (Cyf. 13295) | ✓ | Un o brif nodau rhaglen TIC yw meithrin sgiliau a gallu o fewn y gwasanaethau er mwyn hyrwyddo dull mwy cynaliadwy o gyflwyno'r agenda newid a thrawsnewid yn y dyfodol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n sefydlu rhwydwaith Gwelliant Parhaus yn fewnol o fewn y Cyngor, i rannu a hyrwyddo arfer da ledled y sefydliad. Hefyd rhoddir cyfle i unigolion a gyflogir ar raglen hyfforddai graddedig y Cyngor dreulio rhan o'u lleoliad gwaith yn gweithio fel rhan o raglen TIC, gan gydnabod y gallai hyn gynnig manteision sylweddol i'r hyfforddeion graddedig ac i'r tîm TIC. |
| Byddwn ni, fel rhan o'r Strategaeth Trawsnewid Digidol, yn parhau i ymgysylltu a deall anghenion yr Adran i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol. (Cyf 13302) MFS-88 | ✓ | Lluniwyd cynllun ymgysylltu adrannol llawn ac fe'i rhennir â'r sefydliad, aelodau etholedig ac ysgolion i amlinellu ein hymagwedd at weithgarwch ymgysylltu â chwsmeriaid drwy gydol 18/19. Rhoddwyd cymorth ar lawr y swyddfa yn yr holl brif safleoedd bob mis drwy gydol y flwyddyn. Digwyddiadau Trawsnewid/Arloesi Digidol i Swyddogion, Aelodau ac Ysgolion wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus ar gyfer tymor yr hydref 2018. Mae sesiynau galw heibio i aelodau etholedig yn parhau i ddigwydd cyn ac ar ôl pob cyfarfod cyngor llawn. Gweithio'n agos gyda Marchnata a'r Cyfryngau i sicrhau bod cyfathrebu clir a chyson yn digwydd mor aml â phosibl gyda'r holl gwsmeriaid ynghylch yr holl bynciau perthnasol drwy'r holl sianelau cyfathrebu sydd ar gael. |
| Byddwn yn cynnal ac yn datblygu prif lwyfannau digidol yr awdurdod sef y wefan gorfforaethol, y fewnwyd, yr ystafell newyddion, Darganfod Sir Gâr, a gwefan y | ✓ | Mae'r holl gamau gofynnol ar gyfer eleni wedi'u cymryd. Mae'r gwefannau blaenllaw yn parhau i wella ar sail adborth defnyddwyr yn fewnol ac yn allanol, i sicrhau ein |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|--|
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel eu bod yn ymatebol i ddyfeisiau symudol. (Cyf. 13296) | | bod yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid ac yn croesawu unrhyw dechnoleg a swyddogaethau newydd. |
| Ein nod yw cynyddu defnydd y cyhoedd o wefan y Cyngor (ICT/005) (Canlyniad 2017/18-1,415,459 o ymweliadau /Targed 2018/19 1,600,000 o ymweliadau) | ✓ | Bu cynnydd o 15% yn nifer y sesiynau ar wefan y Cyngor yn ystod 2018/19 i 1,625,512 . |
| Byddwn yn cynyddu nifer y Gwasanaethau Cyngor Trafodiadol sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein.(ICT/003) (Canlyniad 2017/18 - 13 / Targed 2018/19 - 18) | ✓ | Yn ystod 2018/19 , mae 23 o wahanol Wasanaethau Cyngor Trafodiadol wedi cael eu datblygu / gweithredu, i fod ar gael ar-lein i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys y Wefan Gorfforaethol Newydd, Fy Nghyfrif Dinesydd newydd, Gwefan Newyddion newydd, a System Gwasanaethau Cwsmeriaid Newydd. Gwasanaethau talu ar-lein ychwanegol megis Pridiannau Tir, archebu cyrsiau Cymraeg i Oedolion a phrynu Hawlenni Parcio Blynyddol ar gyfer Parciau Gwledig. |
| Byddwn yn gweithredu dull Gweithio Ystwyth newydd yn llawn ledled y Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n stoc adeiladau. (Cyf 13297) MF5-12 | ✓ | Yn ystod y flwyddyn, cynorthwyo â Gweithio Ystwyth ym mhob rhan o'r Cyngor. Erbyn hyn mae gennym Gyfleuster Cyswllt ychwanegol sydd wedi cael ei lansio yn Nhŷ Parc-yr-hun ac mae staff wedi symud i mewn i'r adeilad. Mae Nant-y-ci a 5-7 Heol Spilman ar y farchnad. Adeilad 4 - Parc Dewi Sant: Mae'r gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau ac mae staff wedi symud o Adeilad 14, sydd wedi'i ryddhau i'w logi i'r GIG. Adeilad 2 - Parc Dewi Sant: Mae celfi gweithio ystwyth yno. Neuadd y Sir: Dogfen gweledigaeth a phwrpas wedi'i chwblhau a'i chymeradwyo yng nghyfarfod y Tîm Rheoli Adrannol, i gytuno ar bapur opsiynau ynghylch datblygiad Neuadd y Sir. |
| Byddwn yn gweithredu atebion digidol arloesol a fydd yn galluogi mwy o gydweithio ac yn cynorthwyo sefydliadau i weithio'n ddi-dor gyda'i gilydd. (Cyf. 13298) | ✓ | Rydym wedi ymgysylltu'n aml ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd cydweithredol mewn perthynas â thechnoleg a chaffael. <ul style="list-style-type: none"> • Wedi gweithio ochr yn ochr â 'Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang' i nodi a datblygu systemau a rennir/systemau cydweithredol drwy'r rhwydwaith diogel hwnnw ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. • Cwmpasu, profi a chaffael <i>Microsoft Office 365</i>, sydd â'r potensial i weithredu fel llwyfan craidd i staff gyfathrebu, cydweithio a rhannu data'n rhydd ac yn rhwydd ac yn ddiogel gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat • Gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Sir Benfro a Cheredigion i alluogi staff ar draws y 3 sefydliad i fwrw golwg ar ddyddiaduron a chalendar outlook a'u rhannu. • Gweithio'n agos gyda sawl partner yn y sector cyhoeddus a phreifat gan gynnwys holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynyddu nifer y sefydliadau y gallwn gyfathrebu â hwy drwy '<i>Skype for business</i>'. • Yn ddiweddar rydym wedi arwain ar ymarfer caffael ar y cyd gyda Cheredigion er mwyn adnewyddu'r rhwydwaith <i>wi-fi</i> ysgolion cyfan ar draws y ddwy sir, |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✘ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| | | <p>gan wneud arbedion maint sylweddol a sicrhau'r gwerth gorau i'r ddau sefydliad.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithio'n agos gydag iechyd a gofal cymdeithasol i weithredu system a seilwaith a fydd yn rhoi rhagor o gefnogaeth i weithio integredig/timau/swyddogion. |
| Byddwn yn gwneud gwelliannau i system seilwaith TGCh sy'n heneiddio er mwyn sicrhau bod gennym amgylchedd cadarn a sefydlog. (Cyf. 13299) | ✓ | Rydym wedi disodli holl storfeydd yr Awdurdod drwy gyllid cyfalaf ac wedi mudo'r holl ddata a systemau. Bydd hyn yn diwallu'r holl anghenion o ran storio am y 5-6 blynedd nesaf. |
| Byddwn yn sefydlu pa mor ddichonadwy yw datblygu gwasanaeth caffael ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro. (Cyf 13300) MF5-95 | ✓ | Mae Gwasanaeth Caffael ar y Cyd peilot gyda Chyngor Sir Penfro wedi bod ar waith ers mwy na blwyddyn, ers 2017. Roedd ymagwedd rheoli categori wedi cael ei sefydlu yn ystod y cyfnod hwn ar draws y 2 Gyngor gyda 2 Brif Swyddog wedi'u lleoli yng Nghyngor Sir Penfro (yn gyfrifol am Gateoriau Rheoli Cyfleusterau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) a 3 Prif Swyddog yng Nghyngor Sir Caerfyrddin (yn gyfrifol am gateoriau Gofal Cymdeithasol, Corfforaethol ac Adeiladu a Gwastraff). Mae'r categorïau'n cael eu cefnogi gan Ben-swyddog Caffael o Gyngor Sir Caerfyrddin, sy'n gyfrifol am Bolisi a Chydymffurfiaeth. Mae adolygiad o'r Gwasanaeth a Rennir yn cael ei reoli gan y Tîm TIC yn Sir Gaerfyrddin a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn Sir Benfro. |
| Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'i holl asedau cymunedol, a lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, byddwn yn trosglwyddo perchnogaeth asedau i grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid â diddordeb. (Cyf 13301) MF5-15 | ✓ | Mae gwaith yn parhau ar gasglu data ar yr holl asedau cymunedol gyda golwg ar wneud gwell defnydd o'r cyfleusterau. Mae trafodaethau ynghylch trosglwyddo Asedau Cymunedol yn mynd rhagddynt gydag amryw bartïon sydd â buddiant. |
| Cynnal adolygiad i ystyried y dewisiadau o ran darparu depos yn y modd mwyaf effeithiol ledled y sir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer rhannu cyfleusterau gyda phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus. (Cyf 13303) MF5-11 | ✓ | Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau gyda sefydliadau sy'n bartneriaid ynghylch y posibilrwydd o gydweithio a rhannu cyfleusterau'r depo. Mae trafodaethau'n digwydd yn barhaus i gaffael tir ychwanegol i hwyluso'r uchod. |
| B - Byddwn yn dilyn 7 Egwyddor Llywodraethu Da | | |
| B1 - Uniondeb a Gwerthoedd | | |
| <i>(Ymddwyn ag uniondeb, arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu grym y gyfraith)</i> | | |
| Byddwn yn adolygu ein Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwrgr. (Cyf. 13304) | ✓ | Mae'r Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwrgr wedi cael ei hadolygu ac mae'r ddogfen ddiwygiedig ar ffurf ddrafft. Mae'r ddogfen gyda'r rheolwyr ar hyn o bryd er mwyn iddynt gytuno arni. Ar ôl cytuno arni, bydd y ddogfen yn cael ei rhoi gerbron y Tîm Rheoli Adrannol i'w chymeradwyo. |
| Byddwn yn hyrwyddo polisiau a gweithdrefnau Ariannol, Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwrgr yr Awdurdod. (Cyf. 13305) | ✘ | Bydd y Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwrgr ddiwygiedig yn cael ei hyrwyddo pan fydd y fersiwn ddiwygiedig wedi'i chymeradwyo. |
| Byddwn yn adolygu ein Rheolau Gweithdrefn Ariannol. (Cyf. 13306) | ✘ | Diwygiadau pellach wedi'u gwneud i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Arhosir i'r diwygiadau gael eu hadolygu cyn mynd â'r ddogfen ddrafft derfynol i'r Tîm Rheoli Adrannol ac i'r Pwyllgor Archwilio i'w chymeradwyo. |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✗ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| Byddwn yn datblygu ymhellach berthynas y Cyngor â grwpiau gwarchoddedig e.e. anabledd, oedran, hil a rhywedd gyda Grŵp Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin a'r Bartneriaeth Anabledd. (Cyf. 13307) | ✓ | Mae Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin yn gwneud cynnydd da ac mae'r berthynas waith yn parhau i wella. Ein nod yw sicrhau bod materion sy'n ymwneud â mynediad yn cael eu hystyried o'r cychwyn a'n bod yn cael dialog gonest ac agored am y Gynghrair Anabledd. Mae Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin wedi cael ei ail-lansio er mwyn sicrhau bod y grŵp yn gynhwysol a bod ganddo ffocws, a bydd dogfen 'Lleisiau Sir Gaerfyrddin dros Gydraddoldeb' hefyd yn cael ei diweddarau fel tystiolaeth ar gyfer diwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. |
| Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys ystyried y pum ffordd o weithio ym mhopeth a wnawn. (Cyf 13308) MF5-87 | ✓ | Rydym wedi cydymffurfio â'r Ddeddf o ran gosod a chyhoeddi amcanion llesiant, wedi cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny ac wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol. Ym mis Chwefror 2019, adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru un Amcan Llesiant yn fanwl a chanfuwyd bod ein hymagwedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. |
| Byddwn yn parhau i ddarparu rhaglen hyfforddiant i'r holl staff a rheolwyr ar Ddiogelu Data gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Diogelu Data newydd 2018. (Cyf. 13309) | ✗ | Erbyn diwedd Ch3 2018/19 roedd cyfanswm o 1,022 o weithwyr (ac eithrio ysgolion) wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ddeddfwriaeth Diogelu Data, neu wedi mynychu sesiynau hyfforddi yn y dosbarth. Cydnabyddir nad yw hwn yn ganlyniad boddhaol. Ystyriwyd y defnydd o feddalwedd <i>Metacompliance</i> gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag, cytunwyd yn hytrach i anfon e-byst atgoffa at Benaethiaid Gwasanaeth, a nodai pa weithwyr oedd heb gwblhau'r hyfforddiant ac yn gofyn iddynt fynd ar drywydd hyn. Ar ddiwedd Ch4, roedd 1,332 o weithwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant neu 29% o'r staff roedd yn ofynnol iddynt wneud hynny. |
| B2 – Bod yn agored ac ymgysylltu (Sicrhau ein bod yn agored ac ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid) | | |
| Byddwn yn datblygu ymhellach ymagweddau ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio'r Cyngor. (Cyf 12435) MF5-91 | ✓ | Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi'i wneud i gwmpasu'r trefniadau presennol ar draws y Cyngor. Mae'r porth ymgynghoriad bellach yn gweithio'n effeithiol ac mae pob un o ymgynghoriadau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio drwy'r porth a chaiff yr ymgynghoriadau eu trefnu drwy feddalwedd SNAP. Mae rhagor o waith i'w wneud ar ddatblygu ymagwedd y Cyngor at ymgysylltu. Bydd hyn bellach yn gysylltiedig â phrosiect y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol/Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol drwy'r Gronfa Trawsnewid. |
| Byddwn yn cynyddu'r cydweithio rhwng y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned, drwy gyfarfodydd Fforwm, ymgynghori a llythyrau newyddion. (Cyf 13310) MF5-81 | ✓ | Mae'r trefniadau gweithio trwy Fforwm Cyswllt y Cynghorau Tref a Chymuned wedi'u hen sefydlu ac mae llythyr newyddion rheolaidd yn cael ei ddsbarthu i'r holl gynghorau. Mae cyswllt ag Un Llais Cymru yn mynd rhagddo i ddatblygu trefniadau gweithio ymhellach. |
| Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu ein dull o ymgysylltu a chyfranogi gyda phlant a phobl ifanc, gan sicrhau y gwrandewir ar eu llais wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus. (Cyf 13311) MF5-43 | ✓ | Rydym wedi nodi'r arfer ymgysylltu a chyfranogi presennol yn yr Awdurdod a bydd y wybodaeth a'r data a gesglir yn cael eu defnyddio i greu ac ysgrifennu Strategaeth Ymgysylltu Sir Gaerfyrddin. Bydd ein Tîm Cyfranogiad yn arwain ar greu a gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Gorfforaethol newydd a fydd yn pennu blaenoriaethau clir ar gyfer |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| | | gwneud cynnydd o ran ymrwymiad yr Awdurdod i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Bydd y gwaith hwn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ymgysylltu'n llawn â gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gobeithir y bydd gennym y gallu i sefydlu Pwyllgor Pobl Ifanc 'Y Ffordd Gywir: Dyfodol addas i blant yng Nghymru' er mwyn cwblhau hunanasesiad sydd wedi'i ddylunio i helpu cyrff cyhoeddus i adolygu a gwella'r gwasanaethau maent yn eu darparu i blant a phobl ifanc. |
| Byddwn yn gweithredu ac yn monitro'r camau gweithredu/ymrwymiadau a geir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. <i>(Cyf. 13312)</i> | ✓ | Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys chwe Amcan Cydraddoldeb Strategol. Mae cynllun gweithredu penodol wedi'i baratoi i fwrw ymlaen â'r amcanion hyn. Fodd bynnag mae angen creu cyswllt agosach ag Amcanion Llesiant y Cyngor a'r ffordd maent yn cyfrannu at Amcanion Cenedlaethol Cymunedau Mwy Cyfartal a Chydlynus. Bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod y broses o ddiwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2019, yn barod i'w gyhoeddi erbyn Ebrill 2020. |
| Byddwn yn sicrhau bod barn y Cyngor yn cael ei fynegi i'r Comisiwn Ffiniau ar gyfer yr Adolygiad o Ffiniau Seneddol ac yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei darparu o fewn amserlenni statudol. <i>(Cyf. 13313)</i> | ✓ | Nid yw'r cam gweithredu hwn wedi symud ymlaen i'r cam olaf hyd yn hyn gan fod Sir Gaerfyrddin yn disgwyl i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru gyhoeddi'r Cynigion Terfynol. |
| Byddwn yn lansio'r gwasanaeth apwyntiadau cwsmeriaid newydd ar-lein i'n Gwasanaeth Cofrestryddion. <i>(Cyf. 13314)</i> | ✓ | Erbyn hyn, gall cwsmeriaid drefnu'r holl apwyntiadau o ran hysbysiadau geni, marwolaeth a phriodas ar-lein. |
| Byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau i flaenoriaethu a helpu gwasanaethau i ymgysylltu â'r bobl iawn ar yr adeg iawn ac i gyflawni blaenraglen waith Marchnata a'r Cyfryngau. <i>(Cyf. 13315)</i> | ✓ | Datblygwyd ein blaenraglen waith ar y cyd â chynllun y Bwrdd Gweithredol, 'Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin: y 5 mlynedd nesaf.' Rydym wedi cyfathrebu elfennau o 78 o'r 98 o gamau gweithredu sydd yn y cynllun ac mae'r rhain wedi eu cyfathrebu i wasanaethau perthnasol. Gall ffyrdd o gyfleu'r neges amrywio o gynnwys ar-lein, cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol neu ddigwyddiad penodol. Mae ein cynulleidfa darged hefyd yn amrywio o bobl ifanc i drigolion, twristiaid, staff a'r sector busnes. Mae'r camau allweddol y gweithiwyd arnynt yn ystod y flwyddyn wedi amrywio o Gynnig Beicio y Sir i gefnogi rhoi'r ymagwedd gweithio ystywyth newydd ar waith, agor 3 ysgol newydd fel rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, tai fforddiadwy a lansio Canfod Cartref, amryw brosiectau datblygu economaidd, ac ail-lunio'r ddarpariaeth Hwb yn y sir. |
| Byddwn ni'n parhau i ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) oddi mewn i'r terfyn amser Statudol - fodd bynnag, byddwn ni'n parhau i roi pwyslais ar atebion da a digonol. <i>(2.1.1.17)</i> <i>(Canlyniad 2017/18 - 96.99%/ Targed 2018/19 - 90%)</i> | ✓ | Yn ystod 2018/19, cawsom 1,197 o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) ac ymatebwyd i 98.66% (1,181) ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith . Mae nifer y ceisiadau'n dal i godi, a gwelwyd cynnydd o 9% ers y flwyddyn flaenorol. |
| B3 – Gwneud gwahaniaeth | | |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| <i>(Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol cynaliadwy)</i> | | |
| Byddwn yn cyhoeddi'r Strategaeth Gorfforaethol newydd erbyn 30 Mehefin 2018. (Cyf. 13316) | ✓ | Gwnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Gorfforaethol newydd erbyn 30 Mehefin 2018. Roedd yn cydgrynhoi'r Strategaeth Gorfforaethol flaenorol, ein Cynllun Gwella, Amcanion Llesiant a Chynllun 5 mlynedd y Bwrdd Gweithredol - <i>Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin</i> . Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi tystysgrif cydymffurfiaeth i gadarnhau ei bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Mesur Llywodraeth Leol 2009 mewn perthynas â Chynllunio Gwelliant. |
| Byddwn yn adolygu polisi'r Cyngor ynghylch gwaredu eiddo diangen ac yn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau adfywio. (Cyf. 12449) | ✓ | Mae polisi'r Cyngor ar waredu eiddo nad oes ei angen mwyach wedi'i adolygu ac mae'r polisi diwygiedig wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar 19 Tachwedd 2018. |
| Ein nod yw annog Aelodau a Swyddogion i fynd yn ddi-bapur ar gyfer cyfarfodydd democrataidd. (Cyf. 13318) | ✓ | Bu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr, gymeradwyo'r arolwg TG a'r Canllawiau Cyfarfod Di-bapur. Mae'r arolwg TG wedi'i gwblhau (31 allan o 74 o aelodau wedi ymateb) |
| Byddwn yn cynyddu % yr aelwydydd sy'n cyrchu'r Rhyngwrdd yn Sir Gaerfyrddin ar sail canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (ICT/006) (Canlyniad 2017/18 - 83% / Targed 2018/19 - 85%) | ✓ | Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017/18 mae gan 86% o'r aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin fynediad i'r rhyngwrdd . Mae hwn yn welliant ar yr arolwg blaenorol a fu yn 2016/17 gyda chanlyniad o 83%. O gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, rydym wedi symud o'r 15fed safle i'r 9fed safle. |
| B4 – Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud | | |
| <i>Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i gyflawni'r deilliannau bwriadedig i'r graddau gorau posibl</i> | | |
| Byddwn yn datblygu ymhellach drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor e.e. Cynlluniau Busnes i gyrraedd disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Dangosfyrddau System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS). (Cyf. 13319) | ✓ | Rydym wedi datblygu ein trefniadau Rheoli Perfformiad i fodloni disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein templedi cynllunio busnes wedi cael eu haddasu ac mae ein systemau monitro wedi'u hail-alinio i gyfateb i anghenion y Ddeddf. |
| Byddwn yn cyhoeddi Cynllun Llesiant cyntaf Sir Gaerfyrddin ar ran y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn sicrhau bod y trefniadau partneriaeth yn addas at y diben i gefnogi'r broses o roi'r cynllun ar waith. (Cyf. 13320) | ✓ | Cymeradwywyd Cynllun Llesiant cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar 2 Mai 2018 ac fe'i cyhoeddwyd. Mae strwythur partneriaeth newydd wedi cael ei gymeradwyo ac mae cyfres o Grwpiau Cyflawni wedi'u sefydlu i wneud cynnydd o ran amcanion y Cynllun. |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau cryf rhwng Cynlluniau Rheoli Asedau'r Gwasanaeth a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. (Cyf. 13321) | ✓ | Mae trafodaethau'n parhau â gwasanaethau ar addasrwydd a digonolrwydd eu portffolios, a fydd yn cyfrannu at adolygiad o'r Cynllun Rheoli Asedau yn 2019/20. |
| Byddwn yn casglu mwy o wybodaeth am gyflwr ein hadeiladau er mwyn helpu i ddatblygu cynlluniau cynnal a chadw mwy strategol yn y dyfodol. (Cyf. 13322) | ✓ | Mae'r broses o ail-alinio'r Adain Cynnal a Chadw Eiddo yn parhau, gan gynnwys Tîm adran cynnal a chadw eiddo yn parhau, gan gynnwys gwell Tîm Cyflwr a Chydymffurfio. Mae arolygon Cyflwr wedi'u paratoi ar gyfer Amgueddfeydd Parc Howard ac Abergwili yn ogystal ag amrywiaeth o adeiladau eraill, a bydd rhaglen fwy cynhwysfawr yn cael ei sefydlu pan fydd y tîm llawn yn ei le. Cynhelir trafodaethau cychwynnol mewn perthynas â manyleb ar gyfer arolygon o gyflwr ysgolion yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Ymgynghoriad cychwynnol wedi'i gynnal mewn perthynas â chasglu data symudol ar |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| | | gyfer arolygon nad ydynt yn ymwneud â thai. Mae cronfa ddata bwrpasol wedi'i datblygu ar gyfer arolygon o gyflwr tai yn unol â gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru a gofynion Safon Tai Sir Gaerfyrddin. |
| Byddwn yn cefnogi gweithredu'r dull asesu effaith integredig newydd yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a dyletswyddau statudol eraill. <i>(Cyf. 13323)</i> | ✓ | Mae Asesiad Effaith Integredig drafft wedi'i baratoi, ynghyd â nodiadau canllaw manwl ar gyfer awduron yr adroddiadau. Mae'r Asesiad yn cynnwys cwestiynau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cydraddoldeb, Mesur y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Deddf yr Amgylchedd a datganiadau Preifatrwydd. |
| Byddwn yn gweithredu unrhyw gynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Craffu – adroddiad i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2018. <i>(Cyf. 13324)</i> | ✓ | Mae gwaith cychwynnol wedi dechrau ar yr ymarfer i ddiweddarar meysydd gorchwyl y pwyllgorau craffu. Cafodd yr Aelodau hyfforddiant gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus ar 29 Mawrth ac rydym yn gweithio gyda Chadeiryddion i roi'r awgrymiadau o'r sesiwn honno ar waith. Mae Cyfarwyddyd ynghylch Arferion Da wedi cael ei ystyried hefyd gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu. Mae templed Eitemau ar gyfer y Dyfodol newydd nawr yn ei le ac mae siart llif Porth newydd wedi cael ei lunio i helpu'r Cadeiryddion a'r Pwyllgorau i gytuno ar gynnwys ac i flaenoriaethu materion, er mwyn sicrhau bod materion yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach nag at ddibenion gwybodaeth neu ddiweddarar yn unig. |
| Byddwn yn gweithredu unrhyw welliannau a nodwyd yn adolygiad craffu TIC yn Nhachwedd 2017. <i>(Cyf. 13325)</i> | ✓ | Mae'r broses TIC wedi'i chwblhau. Bydd yr is-adran yn dal i gael ei moderneiddio wrth i systemau digidol newydd ddod ar gael. |
| Byddwn yn sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o Fuddion Cymunedol ym mhob enghraifft o gaffael lle gellir gwireddu buddion o'r fath, ac yn adrodd am y buddion yn achos pob contract sydd dros £1 filiwn. <i>(Cyf. 13326)</i> | ✓ | Budd i'r gymuned: rydym wedi ymrwymo i: <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned ehangach • Gofyn i dendrau ddarparu Budd i'r Gymuned yn ein gweithgareddau tendro drwy ddarparu'r contractau neu'r fframweithiau a ddyfernir • Mwyhau gwerth pob punt a wariwn, gan ddefnyddio ymagwedd Budd i'r Gymuned ar gyfer tendrau sydd werth mwy na £1,000,000. • Casglu a chofnodi Budd i'r Gymuned gan ddefnyddio Offeryn Mesur Budd Cymunedol Llywodraeth Cymru. |
| Byddwn yn gweithredu fel galluogwr a chyfryngwr ar gyfer trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau ledled y Cyngor eu darparu i gwsmeriaid trwy gynyddu cyfleoedd i gyrchu gwasanaethau'r Cyngor drwy dechnolegau digidol. <i>(Cyf. 12452)</i> | ✓ | Mae 'Fy Nghyfrif' (My Account) wedi bod ar waith ers mwy na 12 mis bellach. Hyd yn hyn mae gennym dros 15,000 o ddinasyddion wedi ymuno ac mae 2,100 wedi cysylltu â'u Cyfrif y Dreth Gyngor ac mae 600 wedi cysylltu â'u Cyfrif Rhent Tai. Pan lanswyd ein Hawlenni Parcio Tymor Blynyddol ar gyfer ein parciau gwledig, cafwyd mwy na 500 o bryniannau ar-lein yn y mis cyntaf. Mae'r prosiect Prydau Ysgol 'Di-arian' a 'Thaliadau Ar-lein' yn dal i gael ei gyflwyno (mae mwy na 20 o ysgolion cynradd ar hyn o bryd wedi symud i'r cyfleuster taliadau ar-lein ar gyfer rhieni) a bydd yn cael ei gyflwyno i'r ysgolion cynradd sy'n weddill yn ystod y 12 mis nesaf. |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✗ | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| Byddwn yn cynyddu % y defnydd o'r ddesg gymorth Hunanwasanaeth TGCh (ICT/002) (2017/18 - 44.4% / Targed 2018/19 - 48%) | ✗ | Defnyddiodd 45.4% o gwsmeriaid TGCh y Ddesg Gymorth Hunanwasanaeth TGCh yn ystod 2018/19, ac mae hyn yn is na'r targed ond ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth gyda'n holl gwsmeriaid. |
| B5 - Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi (Datblygu capasiti a gallu arweinwyr ac unigolion) | | |
| Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Strategaeth Pobl i ddatblygu ymhellach gapasiti a gallu arweinwyr ac unigolion i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. (Cyf. 13327) | ✓ | Cytunodd y Grŵp Strategaeth Pobl ar raglen wedi'i hanelu at reolwyr 3ydd/4ydd haen posibl, a fydd yn meithrin gallu i arwain ar draws y Cyngor, ac ar hyn o bryd mae'n aros i gael ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Adrannol cyn ei chyflwyno. Nod y rhaglen yw bod yn seiliedig ar brosiectau gan alluogi cyfranogwyr i ddysgu drwy arwain ar ddarn o waith y cytunwyd arno y tu hwnt i'w swydd/maes gwaith arferol. Mae gwaith wedi dechrau hefyd ar ymestyn y fframwaith cymwyseddau a fydd yn sail i recriwtio, Helpu Pobl i Berfformio, cynllunio'r gweithlu a datblygu ar bob lefel. |
| Byddwn yn adolygu ac yn ail-lunio prosesau arfarnu'r Cyngor. (Cyf. 13328) | ✓ | Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl yr adolygiad gyda'r Bwrdd Strategaeth Pobl a Noddwr y Prosiect (Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu). Bydd yr ymchwil hyd yn hyn, gan gynnwys canfyddiadau Buddsoddwyr mewn Pobl, arferion gorau, ac adborth gan weithwyr, yn llywio'r adolygiad. Mae cyfres o grwpiau ffocws ar gyfer gweithwyr/rheolwyr wedi'u trefnu ar gyfer mis Mehefin a chaiff argymhellion eu cyflwyno i'r Bwrdd Strategaeth Pobl ym mis Medi 2019. |
| Byddwn yn cynnal asesiad o gymharu â safon Buddsoddwyr mewn Pobl, gan ddefnyddio adolygwyr hyfforddedig. (Cyf. 13329) | ✓ | Hyfforddwyd 6 asesydd newydd yn y Safon 6ed Cenhedlaeth ar gyfer Buddsoddwyr mewn Pobl gan lwyddo i gymhwyso dan yr adolygiadau mewnol yn erbyn y Safon. Roedd y rhain yn rhan annatod o broses ail-achredu'r Cyngor, gan weithio law yn llaw ag Aseswr Arweiniol Buddsoddwyr mewn Pobl. Derbyniodd y Cyngor ei ailachrediad dan y safon newydd a dyfarnwyd y Safon Arian iddo ym Mehefin 2018. |
| Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithlu Strategol i'r Cyngor. (Cyf. 12458) | ✓ | Mae Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio gyda Thimau Rheoli Adrannol i ddarparu data cynhwysfawr am y gweithlu er mwyn cynorthwyo â chynllunio busnes a chynllunio'r gweithlu. Mae Pecyn Cymorth i Reolwyr wedi'i ddatblygu o'r blaen ac mae sesiynau briffio ar gyfer rheolwyr wedi'u darparu. Mae Bwrdd y Grŵp Strategaeth Pobl yn nodi'r blaenoriaethau ac mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn llenwi unrhyw fylchau |
| Byddwn yn datblygu Fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth sy'n nodi ac yn datblygu sgiliau sylfaenol ein Harweinwyr a'n Rheolwyr. (Cyf. 13330) | ✓ | Bydd y fframwaith sy'n mapio 'Taith Arweinyddiaeth Sir Gaerfyrddin' a chynnig ar gyfer rhaglen datblygu arweinyddiaeth seiliedig ar brosiectau wedi'i anelu at reolwyr 3ydd a 4ydd haen, yn cael ei ystyried gan y Prif Weithredwr newydd a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu meincnodi ochr yn ochr ag ymchwil ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (Academi Wales - sefydliad datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth y |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✗ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|--|
| | | Gwasanaeth Cyhoeddus) i Ddatblygu Arweinyddiaeth a Rheoli Talent mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. |
| Byddwn yn sicrhau bod gan y defnyddiwr y ddyfais/dyfeisiau TG priodol i ddarparu ei wasanaeth yn effeithiol. (Cyf. 13331) | ✓ | Rydym wedi parhau i gyfnewid dyfeisiau sy'n heneiddio yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r rhaglen gyfnewid. Mae dyfeisiau wedi cael eu rhoi i gwsmeriaid i fodloni eu gofynion yn unol â'r rhaglen Gweithio Ystwyth. Erbyn hyn mae gan fwy na 60% o'r gweithfannau liniaduron sydd â Windows 10. Mae dros 300 o ddyfeisiau symudol wedi'u darparu i weithwyr Gofal Cartref gan eu galluogi i redeg gwasanaeth di-bapur. |
| Byddwn yn cyflwyno hyfforddiant sy'n gysylltiedig â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. (Cyf. 13332) | ✗ | Mae'r cyfraddau cwblhau ar gyfer Hyfforddiant Grŵp 1 – Ymwybyddiaeth o'r Gweithlu yn parhau i beri pryder gan nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r targed/terfyn amser a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyfradd gwblhau yn ddigymffurfio sef 53%. Meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt yn cynnwys cyflwyno i ysgolion. Ymchwilir bellach i ddull diwygiedig sy'n dibynnu llai ar y llwybr e-ddysgu ar gyfer meysydd gweithredol. Mae cynnydd wedi'i wneud ar agweddau eraill ar y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ac mae Datblygu Trefniadaeth wedi arwain cryn dipyn o ran cefnogi dull rhanbarthol ar gyfer Grŵp 2. Ym mis Ebrill dyluniwyd a chyflawnwyd Gweithdai ar gyfer hyfforddwyr posibl ar draws y rhanbarth i gefnogi gofynion y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer Grŵp 2 a 3 mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cymru, a oedd wedi'u cyd-drefnu gan oroeswyr, darparwyr arbenigol a mewnbwn gan y mabwysiadwyr cynnar. Bydd cwrs Hyfforddi'r Hyfforddwr achrededig yn digwydd ym mis Mehefin i gyflwyno hyfforddiant i fwy na 800 o staff o fis Medi ymlaen. |
| Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth lawn i helpu staff i gynnal cydbwysedd gwaith-bywyd iach, a, lle bo'r angen, sicrhau bod absenoldeb salwch ymysg staff yn cael ei reoli'n ofalus er budd y staff a darpariaeth y gwasanaethau. (Cyf 13333) MF5-93 | ✓ | Mae'r gwaith i sicrhau bod y Cyngor yn llwyr gefnogi staff i gynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Cydgysylltwyr Llesiant wedi gweithio yn yr adrannau i annog ffyrdd iach o fyw cadarnhaol. Rydym wedi hyrwyddo pynciau iechyd allweddol a fydd yn addysgu ac yn atal salwch. Briffiadau rheoli presenoldeb a chymorth ar waith. |
| Byddwn yn hyrwyddo ymhellach drefniadau pendant o ran rheoli absenoldeb salwch i leihau nifer y dyddiau gwaith / shifftiau y bu i bob gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) eu colli oherwydd absenoldeb salwch. (PAM/001) (Canlyniad 2017/18 - 10.1 diwrnod /Targed 2018/19 - 9.6 diwrnod) | ✗ | Canlyniad 2018/19 - 9.8 diwrnod. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi gwella o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae salwch ar ei lefel isaf ers 2014/15. |
| Byddwn yn cynyddu % y gliniaduron a ddefnyddir yn y cyngor i sicrhau ein bod yn symud tuag at weithlu hyblyg 80%. (ICT/004) (Canlyniad 2017/18 – 53% / Targed 2018/19 - 57%) | ✓ | Gliniaduron yw 68% o'r dyfeisiau TG a ddefnyddir yn y Cyngor, ac mae hwn yn welliant parhaus tuag at weithlu y mae 80% ohono'n hyblyg. |

B6 - Rheoli risgiau, perfformiad ac arian

(Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref)

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|---|
| Datblygu Strategaeth Rheoli Risg newydd - Angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio. (Cyf. 12387) | ✓ | Strategaeth Rheoli Risg wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 28/09/2018. |
| Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb i'r holl ofynion o ran seiber-ddiogelwch er mwyn cyfnerthu systemau mewnol y staff ac i barhau i ddarparu gwasanaethau allanol i drigolion (gan sicrhau bod atebion cynaliadwy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer Rheoli Gwybodaeth). (Cyf 13334) MF5-90 | ✓ | Rydym wedi prynu a gosod meddalwedd gwrth-firws newydd ar holl ddyfeisiau'r Cyngor. Rydym wedi adolygu'r polisïau Diogelwch TG ac wedi diweddarau'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch drwy drefnu bod 'bws seiber' yn ymweld â Chaerfyrddin. |
| Byddwn yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'r holl safleoedd sy'n eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu defnyddio ganddo yn cael eu nodi a'u rheoli'n addas a digonol. (Cyf. 13335) | ✓ | Mae haen uchaf yr Adain Cynnal a Chadw Eiddo wedi cael ei hail-alinio ac mae Tîm Cyflwr a Chydymffurfiaeth wedi'i gynnwys yn rhan ohoni. Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r Aseidiadau Risg Tân presennol ar gyfer tai lloches a fflatiau, a bydd rhaglen fwy cynhwysfawr yn cael ei sefydlu pan fydd y tîm yn ei le. |
| Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy ddatblygu cysylltiadau amlwg rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a phrosesau cynllunio corfforaethol y Cyngor. (Cyf. 13336) | ✓ | Amlinellwyd yr Amcanion Llesiant yn seminarau cyllideb yr Aelodau a rhoddwyd y cynlluniau busnes adrannol gerbron yr un cyfarfodydd craffu â'r gyllideb. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn nodi'r adnoddau a ymrwymwyd |
| Rheoli a gwneud y defnydd gorau o eiddo ac asedau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar resymoli swyddfeydd a rhannu â phartneriaid eraill yn ogystal â hwyluso perchenogaeth y gymuned ar asedau er budd y gymuned. (Cyf. 13337) | ✓ | Mae'r gwaith o adnewyddu Adeilad 4 Parc Dewi Sant wedi'i gwblhau ac mae staff wedi'u hadleoli o Adeilad 14. Mae'r gwaith ar 3 Stryd Spilman i ddarparu ardaloedd gweithio ystwyth cynllun agored bron â'i gwblhau. Bydd hyn yn golygu y bydd staff sydd wedi eu lleoli dros dro yn Adeilad 2 Parc Dewi Sant yn gallu dychwelyd a bydd adeiladau 5-8 Heol Spilman yn gallu cael eu gwagio. Mae trosglwyddo asedau cymunedol yn dal i gael ei hybu drwy'r Tîm Trosglwyddo Asedau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws yr adrannau perthnasol. |
| Byddwn yn atgyfnerthu ymhellach drefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod amserlenni cyflawni arbedion yn bendant a thrwy adolygu amserlenni fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. (Adroddiad Cynllunio Arbedion Menter Cyllid Preifat Swyddfa Archwilio Cymru). (Cyf. 13338) | ✓ | Mae cynigion ar gyfer arbedion wedi cael eu hadolygu gan Benaethiaid Gwasanaeth a Chyfarwyddwyr er mwyn clustnodi risgiau posibl. Mae ystyriaeth wedi'i rhoi'n benodol i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, lle mae risg bosibl o dwf demograffig/rheoli galw. |
| Byddwn yn darparu, drwy TGCh, awtomateiddio ac integreiddio prosesau gweithio mewnol a gweithdrefnau i roi bod i arbedion effeithlonrwydd. (Cyf. 12473) | ✓ | Mae rhagor o brosiectau a gymeradwywyd gan y Grŵp Llywio Trawsnewid Digidol ar gyfer 18/19 wedi'u datblygu a/neu wedi dechrau cael eu datblygu. Prosiectau Mudo Cwmwl, Gladstone (Hamdden) Mudo Cwmwl wedi'i gwblhau'n llwyddiannus gyda Chynllun Gosodiadau ar Sail Dewis - Tai). CIVICA a'r system Gofal Cartref wedi'u cwblhau. Mae hyn yn drawsnewidiad enfawr i'r meysydd gwasanaeth hyn, yn enwedig Gofal Cartref sy'n darparu dros 500 o ffonau clyfar i ofalwyr gofal a staff yn caniatáu mynediad 24/7 i'w systemau a'u data. Bydd mudo Goleuadau Stryd i Wasanaeth a Reolir gan Gwmwl yn rhoi mwy o symudedd i'r gwasanaeth ac i beirianwyr goleuadau stryd sydd â mynediad o bell i'w system a mynediad at ddyfeisiau tabled. Ymhlith y prosiectau / |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| | | <p>prosesau penodol eraill sydd wedi'u datblygu y mae 'Beth sy'n Gwastraffu eich Amser'. Mae'r system Damweiniau a Digwyddiadau newydd wedi'i datblygu, ynghyd â'r prosesau Atgyfeirio Iechyd Galwedigaethol newydd a fydd yn galluogi gwell integreiddio i'n system rheoli dogfennau corfforaethol swyddfa gefn (Information@ work).</p> |
| <p>Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu GeoDiscover ac yn parhau i'w gyflwyno ledled y Cyngor, ynghyd â defnydd llawn o'r Gazetteer. (Cyf. 13339)</p> | ✓ | <p>Mae Geodiscover ar-lein at ddefnydd yr holl staff mewnol. Mae'n diweddarau haenau'n barhaus a helpu staff ag unrhyw ymholiadau neu drwy roi arweiniad.</p> |
| <p>Byddwn yn gweithio gydag adrannau i weithredu'r cynlluniau Rheoli Categori. (Cyf. 13340)</p> | ✓ | <p>Mae Rheoli Categori yn ffordd strwythuredig o drefnu a mapio adnoddau a gweithgareddau caffael drwy grwpio ynghyd gynnyrch a gwasanaethau cysylltiedig ledled y Cyngor a'u mapio i farchnadoedd cyflenwi perthnasol. Drwy ddadansoddiad manwl o wariant y Cyngor a thrafodaethau â rhanddeilaid yr adran, rydym yn herio'r hyn rydym yn ei brynu a sut rydym yn ei brynu i sicrhau grym prynu a gwerth hyd yr eithaf. Mae Cynlluniau Categori yn cael eu datblygu i nodi cyfleoedd posibl ledled y Cyngor.</p> <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adeiladu a Gwastraff - Mae ymarfer caffael Fframwaith Contractwyr Peirianeg Sifil Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn dod i ben. Roedd y fframwaith yn cynnwys 15 o lotiau a chyfanswm gwerth disgwylidig o £300m. • Priffyrdd a Thrafnidiaeth – Mae'r tendr Coedyddiaeth wedi'i ddyfarnu erbyn hyn, ac amcangyfrifir y gwneir arbedion effeithlonrwydd o oddeutu £25k y flwyddyn. |
| <p>Byddwn yn defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn y dyfodol, ac yn cefnogi datblygiad yn y dyfodol. (Cyf 13341) MFS-96</p> | ✓ | <p>Gellir gweld tystiolaeth o hyn yn yr ychwanegiadau at y gronfa datblygiadau mawr i gwmpasu'r diffyg 4 blynedd a'r gronfa wrth gefn newydd ar gyfer y Fargen Ddinesig a sefydlwyd gan y swyddog Adran 151, a gymeradwywyd gan y pwyllgor archwilio.</p> |
| <p>Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rheoli ei gyllidebau'n effeithiol ac yn ddarbodus. (Cyf 13342) MFS-98</p> | ✓ | <p>Dulliau rheoli ariannol sydd wedi'u hen sefydlu ar waith ac yn weithredol.</p> |
| <p>Byddwn yn Cau ac yn Archwilio'r Cyfrifon o fewn yr amserlenni priodol. (Cyf. 13343)</p> | ✓ | <p>Cyfrifon 2017-18 wedi'u cwblhau 2 wythnos o flaen yr amserlenni statudol, yn unol â nod y tîm o gael ymarfer cyn bydd y cyfrifon yn cau'n gynnar go iawn y flwyddyn nesaf. Tystysgrifau heb gymhwyso yn cael eu cyhoeddi gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifon y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.</p> |
| <p>Byddwn yn anelu at fwyafswm incwm derbyniadau cyfalaf i gefnogi rhaglen gyfalaf o £3.08m (2.1.2.12) (Canlyniad 2017/18 - 71.42% £1.93m / Targed 2018/19 - 100% £3.08m)</p> | x | <p>£2,100,200 o dderbyniadau cyfalaf wedi eu cyflawni yn ystod 2018/19, mae hyn yn 68.27% o'r hyn a dargedwyd. Yn anffodus mae nifer o drafodion wedi llithro o ran yr amserlen ac er bod contractau wedi cael eu cyfnewid, yn achos un gwerthiant sylweddol mae'n amodol ar gael caniatâd cynllunio a bydd hyn yn golygu na fydd y dderbynneg yn weithredol tan y flwyddyn ariannol nesaf 2019/20.</p> |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✘ | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| Ein nod yw cynyddu % y Dreth Gyngor a gesglir (CFH/007) <i>(Canlyniad 2017/18 97.57% / Targed 2017/18 - 97.60%)</i> | ✓ | Casglwyd 97.64% o'r Dreth Gyngor yn ystod 2018/19, ac roedd hyn ychydig yn uwch na'r llynedd ac mae'n dangos gwelliant. |
| Ein nod yw casglu o leiaf 98% o'r ardrethi annomestig (CFH/008) <i>(Canlyniad 2017/18 - 99.52% / Targed 2018/19 - 98.5%)</i> | ✘ | 98.08% o'r cyfraddau annomestig wedi'u casglu yn ystod 2018/19, ac mae hwn yn ostyngiad ar y gyfradd gasglu hynod uchel ar gyfer y llynedd ac mae'n is na'r targed. Mae'r hinsawdd Economaidd yn dal i effeithio ar fusnesau, ynghyd â gostyngiad mewn Rhyddhad Trosiannol a Rhyddhad y Stryd Fawr, gan arwain at gyfraddau uwch i rai busnesau. Daeth yr ailbrisiad ardrethi i rym ar 1 Ebrill 2017. Cyflwynodd y Llywodraeth gynllun Rhyddhad Trosiannol a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd a wynebir gan drethdalwyr mewn safleoedd bach lle byddai unrhyw gynnydd yn deillio o'r ailbrisiad "wedi'i gyfyngu i 25% yn 2017/18" a chynyddodd y terfyn hwn i 50% yn 2018/19." Yn ogystal, bu lleihad yn swm Rhyddhad y Stryd Fawr yr oedd hawl gan fusnesau iddo, gydag eiddo â gwerth ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000 yn gweld y rhyddhad yn gostwng o £500 yn 17/18 i £250 ac eiddo â gwerth ardrethol rhwng £12,001 a £50,000 yn gweld y rhyddhad yn gostwng o £1500 i £750. |
| B7 - Tryloywder ac atebolrwydd da <i>(Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol)</i> | | |
| Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol manwl ar Amcanion Llesiant 2017/18. (Cyf. 13344) | ✓ | Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18 i bob Pwyllgor Craffu, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 10 Hydref a'i gyhoeddi ar 31 Hydref. |
| Byddwn yn adolygu'r Llawlyfr Archwilio. (Cyf. 13345) | ✘ | Mae'r Llawlyfr Archwilio yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |
| Byddwn yn sicrhau bod archwiliad anghymwys ar gyfrifon terfynol 2016/17. (Cyf. 13346) | ✓ | Cyflawnwyd archwiliad heb gymhwyso o gyfrifon terfynol 2016/17 unwaith eto. |
| Byddwn yn anelu at sicrhau gwir gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol (6.4.1.3) <i>(Canlyniad 2017/18 - 75% / Targed 2018/19 - 90%)</i> | ✘ | Canlyniad 2018/19 - 72% . Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â 2017/18. Mae nifer o Swyddi Archwilio ar y gweill ond nid oedd y gwaith maes wedi'i gwblhau ar 31 Mawrth 2019, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y canlyniad hwn. Byddwn yn parhau i weithio tuag at gyflawni 100% o'r cynllun, gan sicrhau bod archwiliadau o safon yn cael eu cyflawni. |